National Audit Office

ADRODDIAD

# Gweinyddu cyfraddau treth incwm Cymru 2023-24

Cyllid a Thollau EF

SESIWN 2024-25
24 IONAWR 2025
HC 542

Ni yw corff gwarchod annibynnol y DU ar wariant cyhoeddus.

Rydym yn cefnogi Senedd y DU wrth ddwyn y llywodraeth i gyfrif ac rydym yn helpu i wella gwasanaethau cyhoeddus drwy ein harchwiliadau o ansawdd uchel.

Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO) yn craffu ar wariant cyhoeddus ar gyfer Senedd y DU ac mae'n annibynnol ar y llywodraeth a'r gwasanaeth sifil. Rydym yn helpu Senedd y DU i ddal y llywodraeth i gyfrif ac yn defnyddio ein gwybodaeth i helpu pobl sy'n rheoli ac yn llywodraethu cyrff cyhoeddus i wella gwasanaethau cyhoeddus.

Mae Gareth Davies, y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol, yn un o Swyddogion Tŷ'r Cyffredin ac mae'n arwain y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Rydym yn archwilio cyfrifon ariannol adrannau a chyrff cyhoeddus eraill. Rydym hefyd yn archwilio ac yn adrodd ar werth am arian o ran y ffordd mae arian cyhoeddus wedi cael ei wario.

Yn 2023, arweiniodd gwaith y Swyddfa Archwilio Genedlaethol at effaith ariannol gadarnhaol werth £1.6 biliwn drwy leihau costau, darparu gwasanaethau'n well, neu fanteision eraill i ddinasyddion.

National Audit Office

# Gweinyddu cyfraddau treth incwm Cymru 2023-24

## Cyllid a Thollau EF

**Adroddiad gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol**

Gorchmynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin
i gael ei brintio ar 22 Ionawr 2025

Paratowyd yr adroddiad hwn o dan Adran 6 o Ddeddf Archwilio Cenedlaethol 1983 i'w gyflwyno i Dŷ'r Cyffredin yn unol ag Adran 9 o'r Ddeddf

Cyflwynwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag Adran 116K o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2014

**Gareth Davies**
**Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol**
**Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol**

**10 Ionawr 2025**

HC 542 | £10.00

Mae'r deunydd sy'n ymddangos yn y ddogfen hon yn ddarostyngedig i hawlfraint y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO). Gellir copïo neu atgynhyrchu'r deunydd at ddibenion anfasnachol yn unig, sef atgynhyrchu ar gyfer ymchwil, astudiaeth breifat neu gylchrediad mewnol cyfyngedig o fewn sefydliad at ddibenion adolygu.

Mae copïo at ddibenion anfasnachol yn ddarostyngedig i gydnabyddiaeth ddigonol, wedi'i hatgynhyrchu'n gywir ac nad yw'n cael ei defnyddio mewn cyd-destun camarweiniol, gyda'r deunydd. I atgynhyrchu deunydd hawlfraint NAO am unrhyw ddefnydd arall, rhaid i chi gysylltu â copyright@nao.org.uk. Dywedwch wrthym pwy ydych chi, y sefydliad rydych chi'n ei gynrychioli (os o gwbl) a sut a pham rydych chi'n dymuno defnyddio ein deunydd. Cofiwch gynnwys eich manylion cyswllt llawn: enw, cyfeiriad, rhif ffôn ac e-bost.

Sylwer na ellir atgynhyrchu'r deunydd sy'n ymddangos yn y ddogfen hon er budd masnachol heb ganiatâd penodol ac uniongyrchol yr NAO a bod yr NAO yn cadw'r hawl i ddilyn achosion torri hawlfraint yn erbyn unigolion neu gwmnïau sy'n atgynhyrchu deunydd ar gyfer budd masnachol heb ein caniatâd.

Roedd dolenni i wefannau allanol yn ddilys ar adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn. Nid yw'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn gyfrifol am ddilysrwydd y dolenni yn y dyfodol.

**014066 01/25 NAO**

**© Swyddfa Archwilio Genedlaethol 2025**

# Cynnwys

**Crynodeb**
Cyflwyniad 4

**Rhan Un**
Treth incwm a gesglir gan drethdalwyr Cymreig 9

**Rhan Dau**
Gweinyddu treth incwm Cymru 15

**Rhan Tri**
Costau 27

**Atodiad Un**
Ein sail dystiolaeth 28

Gellir dod o hyd i'r adroddiad hwn ar wefan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn www.nao.org.uk

Os oes angen fersiwn o'r adroddiad hwn arnoch mewn fformat amgen am resymau hygyrchedd, neu unrhyw un o'r ffigurau mewn fformat gwahanol, cysylltwch â'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar enquiries@nao.org.uk

Roedd tîm astudiaeth y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn cynnwys:

Qasim Chaudhry, Lamees Hashim, Natalie Low, Esther Namukasa, Freya Scott ac Andy Serlin, o dan gyfarwyddyd Darren Stewart.

Mae'r adroddiad hwn ar gael ar wefan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar www.nao.org.uk

Am ragor o wybodaeth am y Swyddfa Archwilio Genedlaethol cysylltwch â:

National Audit Office
Press Office
157–197 Buckingham Palace Road
Victoria
London
SW1W 9SP

020 7798 7400
www.nao.org.uk
@NAOorguk

# Crynodeb

## Cyflwyniad

**1** Rhoddodd Deddf Cymru 2014 y grym i Senedd Cymru bennu'r cyfraddau (ac eithrio'r lwfans personol) sy'n cael eu talu gan drethdalwyr Cymreig ar bob incwm sydd ddim yn deillio o gynilion neu ddifidendau, o 6 Ebrill 2017.

**2** Ers mis Ebrill 2019, mae Llywodraeth y DU wedi gostwng cyfraddau treth incwm sylfaenol, uwch ac ychwanegol y DU 10 pwynt canran ar gyfer trethdalwyr Cymreig, ac mae'r Senedd wedi bod â'r grym i osod cyfraddau ychwanegol yng Nghymru. Ar gyfer pob band treth, cyfradd y dreth incwm sy'n cael ei thalu yw swm cyfradd ostyngedig y DU a'r gyfradd Gymreig a bennwyd ar gyfer y flwyddyn (**Ffigur 1**). Fel mewn blynyddoedd blaenorol, ar gyfer 2023-24, gosododd y Senedd gyfraddau treth incwm Cymru ar 10% ar draws pob band, a oedd yn golygu bod cyfanswm y cyfraddau ar gyfer trethdalwyr yng Nghymru yn cyfateb i gyfraddau'r DU o 20% (cyfradd sylfaenol), 40% (cyfradd uwch) a 45% (cyfradd ychwanegol).

**3** Yn yr adroddiad hwn, rydym yn disgrifio'r swm sy'n cael ei chasglu o dan gyfraddau treth incwm Cymru, sy'n cynrychioli tua 43% o gyfanswm y dreth incwm sy'n cael ei chasglu gan drethdalwyr Cymreig. Mae grant bloc adnoddau Llywodraeth Cymru gan Lywodraeth y DU yn cael ei ostwng gan y swm hwn ac mae Trysorlys EF yn gyfrifol am dalu'r symiau hyn i Lywodraeth Cymru. Mae'r cyfraniadau treth incwm sy'n weddill yn cael eu talu i Lywodraeth y DU.


### Rolau a chyfrifoldebau

**4** Cyllid a Thollau EF sy'n gweinyddu ac yn casglu cyfraddau treth incwm Cymru fel rhan o system dreth y DU. Mae CThEF yn nodi trethdalwyr sy'n byw yng Nghymru drwy osod 'fflag' yn ei systemau sy'n nodi eu bod yn ddarostyngedig i gyfraddau treth incwm Cymru. Mae CThEF wedi cyfrifo bod 1.5 miliwn o drethdalwyr Cymreig yn 2022-23 (2021-22: 1.4 miliwn).

**5** Ar ôl diwedd pob blwyddyn dreth, mae Cyllid a Thollau EF yn paratoi amcangyfrif dros dro o refeniw treth y flwyddyn honno o gyfraddau treth incwm Cymru. Mae'n cyfrifo'r alldro terfynol y flwyddyn ganlynol, ar ôl iddo gael rhagor o wybodaeth gan drethdalwyr a chyflogwyr. Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â'r alldro terfynol ar gyfer 2022-23 a'r amcangyfrif dros dro ar gyfer 2023-24. Mae CThEF yn disgwyl cyhoeddi'r alldro ar gyfer 2023-24 yn ei Adroddiad Blynyddol a'i Gyfrifon ar gyfer 2024-25.

## Ffigur 1
Cyfraddau treth incwm Cymru ar gyfer 2023-24

**Mae cyfradd treth incwm y DU yn cael ei gostwng 10 ceiniog fesul punt yng Nghymru, gyda Llywodraeth Cymru yn penderfynu ar swm ychwanegol i gael ei dalu fel cyfradd treth incwm Cymru**




| | Cyfradd sylfaenol | Cyfradd uwch | Cyfradd ychwanegol |
|---|---|---|---|
| Cyfraddau Treth Incwm Cymru (ceiniog) | 10 | 10 | 10 |
| Cyfradd treth incwm y DU wedi'i gostwng 10 ceiniog fesul punt (ceiniog) | 10 | 30 | 35 |
| **Cyfanswm** | **20** | **40** | **45** |

**Nodiadau**

1 Ar gyfer pob band treth (sylfaenol, uwch ac ychwanegol), mae llywodraeth y DU yn lleihau swm y dreth y bydd yn ei chasglu 10 ceiniog fesul punt ac mae'r Senedd yn pennu cyfradd treth incwm Cymru i'w hychwanegu at gyfraddau treth y DU.

2 Ar gyfer 2023-24, mae'r Senedd wedi pennu pob un o gyfraddau treth incwm Cymru ar 10 ceiniog, sy'n golygu bod trethdalwyr Cymru yn talu swm o dreth sy'n cyfateb o ran treth i gyfradd y DU ar gyfer pob band treth.

Ffynhonnell: Dadansoddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol o ddata gan Lywodraeth Cymru

**6** Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2014, yn mynnu bod y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol yn paratoi adroddiad ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar:

- pa mor ddigonol yw rheolau a gweithdrefnau CThEF, o ganlyniad i ddarpariaethau cyfraddau Cymru, i sicrhau bod y dreth incwm sy'n cael ei chodi yn cael ei hasesu a'i chasglu'n briodol ar gyfraddau sy'n cael eu pennu gan y darpariaethau hynny;
- a yw CThEF yn cydymffurfio â'r rheolau a'r gweithdrefnau hyn;
- cywirdeb y symiau a gafodd eu dwyn i gyfrif gan CThEF sy'n ymwneud â threth incwm y gellir i phriodoli i benderfyniad ar gyfraddau i Gymru; a
- cywirdeb a thegwch symiau a ad-dalwyd i CThEF fel treuliau gweinyddol.

**7** Mae'r adroddiad hwn yn asesu:

- cyfrifiad CThEF o refeniw cyfraddau treth incwm Cymru 2022-23 (yr 'alldro') a sicrwydd o ran cywirdeb y symiau sy'n cael eu dwyn i gyfrif (Rhan Un);
- amcangyfrif CThEF o refeniw cyfraddau treth incwm Cymru 2023-24 a'n barn ar fethodoleg yr amcangyfrif (Rhan Un);
- rheolaethau allweddol sy'n cael eu gweithredu gan CThEF i asesu a chasglu treth incwm (Rhan Dau);
- dull CThEF o asesu a lliniaru'r risg o ddiffyg cydymffurfio â gofynion treth Cymru (Rhan Dau); a
- cost gweinyddu treth incwm Cymru. Rydym yn rhoi sicrwydd ynghylch cywirdeb a thegwch y symiau hyn yng nghyd-destun costau sy'n cael eu hysgwyddo gan CThEF (Rhan Tri).

**8** Mae Atodiad Un yn nodi sylfaen dystiolaeth ein harchwiliad.

## Y prif ganfyddiadau

### Alldro terfynol cyfraddau treth incwm Cymru ar gyfer 2022-23 ac amcangyfrif 2023-24

**9 Yn ôl cyfrifiad CThEF, yr alldro terfynol ar gyfer cyfraddau treth incwm Cymru yn 2022-23 oedd £2,618 miliwn. Mae hyn yn cynrychioli'r symiau a gasglwyd o dan bolisi treth incwm Cymru.** Mae hyn yn cyfateb i gynnydd o 10.8% o gymharu ag alldro 2021-22. Mae CThEF yn seilio'r cyfrifiad alldro yn bennaf ar atebolrwydd treth sefydledig lle mae CThEF wedi nodi'r dreth sy'n ddyledus ac wedi cysoni cofnodion trethdalwyr yn llawn. Mae'r cyfrifiad yn cynnwys rhai achosion o amcangyfrifo ac addasiadau, er enghraifft lle nad oedd CThEF wedi cael ffurflenni gan drethdalwyr eto neu lle nad oes gan CThEF ddata sy'n benodol i Gymru. Yn yr achosion hyn, rydym wedi gwerthuso rhesymeg CThEF dros amcangyfrif, gan gynnwys y tybiaethau perthnasol a'r data a oedd ar gael. Roedd cyfanswm gros yr amcangyfrifon a'r addasiadau a gafodd eu gwneud gan CThEF yn cyfrif am 7.6% o'r alldro a adroddwyd yn 2022-23, cyfran debyg i 2021-22. Ar sail ein gwaith archwilio, rydym wedi dod i'r casgliad bod alldro cyfraddau treth incwm Cymru ar gyfer 2022-23 wedi'i ddatgan yn deg (paragraffau 1.2 i 1.12 a Ffigur 2).

10 **Mae CThEF wedi amcangyfrif bod y refeniw o gyfraddau treth incwm Cymru ar gyfer 2023-24 yn £2,938 miliwn.** Mae hyn yn cyfateb i gynnydd o £320 miliwn (12.2%) o gymharu ag alldro 2022-23. Roedd treth incwm ar gyfer y DU gyfan wedi cynyddu 11.9% yn 2023-24. Mae'r cynnydd hwn yn adlewyrchu cynnydd mewn enillion, gostyngiad yn y trothwy lle mae trethdalwyr yn talu'r gyfradd uchaf o dreth incwm (o £150,000 i £125,140), a rhewi'r rhan fwyaf o drothwyon eraill. Cynyddodd hyn faint y boblogaeth o drethdalwyr a symudwyd rhai trethdalwyr i ddosbarth treth uwch. Mae CThEF yn disgwyl cyfrifo'r alldro treth incwm terfynol ar gyfer 2023-24 y gellir ei briodoli i gyfraddau treth incwm Cymru erbyn Gorffennaf 2025. Mae'r amcangyfrif a lunnir gan CThEF dim ond at ddibenion cyflwyno adroddiadau ariannol yn ei gyfrifon blynyddol. Ar sail perfformiad yr amcangyfrif dros y blynyddoedd diwethaf, mae wedi bod yn ddangosydd rhesymol o faint o dreth incwm sy'n debygol o gael ei chasglu gan drethdalwyr Cymreig. Yn 2022-23, roedd yr alldro £51 miliwn (1.9%) yn uwch nag amcangyfrif dros dro CThEF. Nid yw'r amcangyfrif yn effeithio ar faint o refeniw y mae Llywodraeth Cymru yn ei dderbyn yn y pen draw (paragraffau 1.13 i 1.16 a Ffigur 4).

## Gweinyddu cyfraddau treth incwm Cymru

11 **Mae gan CThEF reolau a gweithdrefnau digonol ar waith i sicrhau bod cyfraddau treth incwm Cymru yn cael eu hasesu a'u casglu'n briodol, ac mae'n cydymffurfio â'r rheolau hynny.** Mae ein gwaith ar dreth incwm Cymru yn adeiladu ar ein hasesiad ehangach o reolau a gweithdrefnau CThEF, a gwblhawyd fel rhan o'n harchwiliad blynyddol o CThEF. Fel rhan o'r archwiliad hwnnw, daethom i'r casgliad bod CThEF wedi llunio rheoliadau a gweithdrefnau digonol i sicrhau gwiriad effeithiol o'r broses o asesu refeniw, ei gasglu a'i ddyrannu'n briodol, a bod y rheoliadau a'r gweithdrefnau hyn yn cael eu gweithredu'n briodol (paragraffau 2.2 i 2.15).

12 **Yr her allweddol i CThEF o hyd wrth weinyddu'r system yw cynnal cofnod cywir a chyflawn o gyfeiriadau trethdalwyr Cymreig.** Mae CThEF yn dibynnu ar drethdalwyr yn rhoi gwybod iddo am newid cyfeiriad, er nad oes gofyniad cyfreithiol iddynt wneud hynny. Roedd nifer y trigolion yng Nghymru oedd ag incwm trethadwy yn 2023-24 y canfuwyd bod ganddynt god post coll neu annilys drwy waith glanhau cyfeiriadau CThEF yn parhau i fod yn gymharol isel ar 807 (2022-23: 770). Fel rhan o'i waith sicrwydd, diweddarodd CThEF yr holl gofnodion hyn. Y tro diwethaf i CThEF gymharu'r cofnodion cyfeiriadau yng Nghymru sydd ganddo gyda data trydydd parti oedd ym mis Awst 2023, pan lwyddodd i gyfateb 75.8% o gofnodion cyfeiriadau (paragraffau 2.17 i 2.22 a Ffigur 8).

13 **Mae asesiadau CThEF yn parhau i nodi bod y risg o ddiffyg cydymffurfiaeth yng nghyswllt cyfraddau treth incwm Cymru yn isel am nad oes unrhyw wahaniaeth rhwng cyfraddau treth Cymru a gweddill y DU.** Yn 2023-24, lluniodd CThEF Ddarlun Strategol o Risg (SPR) ar gyfer cyfraddau treth incwm Cymru. Mae'n ystyried bod y prif achosion risg i dreth incwm Cymru yr un fath â'r risgiau cydymffurfio hynny y mae'n eu hasesu ar lefel y DU gyfan. Yn y Darlun Strategol o Risg, nid yw CThEF yn nodi bod unrhyw risgiau'n benodol i Gymru gan fod CThEF yn asesu bod y risg o gydymffurfio yng Nghymru yn gyson â gweddill y DU (paragraffau 2.23 a 2.24).

14 **Cyfrifodd CThEF enillion cydymffurfio o £110 miliwn ar gyfer Cymru yn 2022-23. Y data hyn yw'r rhai mwyaf diweddar sydd ar gael.** Mae CThEF yn mesur effeithiolrwydd ei weithgareddau gorfodi a chydymffurfio drwy enillion cydymffurfio: ei amcangyfrif o'r refeniw ychwanegol y mae wedi'i gynhyrchu a'r colledion refeniw y mae wedi'u hatal. Amcangyfrifodd CThEF mai £390 miliwn oedd cyfran Cymru o'r colledion net o risgiau cydymffurfio ar gyfer 2021-22, sef y data diweddaraf a oedd ar gael. Mae CThEF yn cyfrifo'r ffigurau hyn fel cyfran o ffigur cyfatebol y DU, yn hytrach na defnyddio data penodol i Gymru er mwyn meintioli'r risgiau. Nid yw CThEF yn ystyried nac yn adrodd ar amrywiadau daearyddol rhwng Cymru a gweddill y DU wrth asesu risgiau i gydymffurfiaeth na llwyddiant cymharol gweithgarwch cydymffurfio (paragraff 2.27).

## Costau

15 **Yn 2023-24, aeth CThEF i gostau o £0.43 miliwn wrth weinyddu cyfraddau treth incwm Cymru ac ailgododd dâl am hynny ar Lywodraeth Cymru.** Gwnaethom archwilio'r ffordd roedd CThEF yn amcangyfrif costau casglu a gweinyddu cyfraddau treth incwm Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024. Yn seiliedig ar ein gwaith archwilio, rydym wedi dod i'r casgliad bod y swm a dalwyd gan Lywodraeth Cymru yn gywir a theg yng nghyd-destun y cytundeb rhwng CThEF a Llywodraeth Cymru (paragraffau 3.4 a 3.5).

# Rhan Un

## Treth incwm a gesglir gan drethdalwyr Cymreig

**1.1** Mae Rhan Un o'r adroddiad hwn yn cwmpasu cyfrifiad Cyllid a Thollau EF (CThEF) o'r alldro refeniw terfynol yn 2022-23 a'i amcangyfrif dros dro o refeniw cyfraddau treth incwm Cymru ar gyfer 2023-24. Mae hyn yn cynnwys cyfyngiadau data a dyfarniadau CThEF mewn meysydd lle y ceir ansicrwydd wrth gyfrifo'r alldro, a nodweddion a chyfyngiadau methodoleg CThEF wrth gyfrifo ei amcangyfrif dros dro.

### Alldro terfynol cyfraddau treth incwm Cymru ar gyfer 2022-23

**1.2** Mae CThEF wedi cyfrifo bod yr alldro o gyfraddau treth incwm Cymru ar gyfer 2022-23 yn £2,618 miliwn. Mae CThEF yn defnyddio sawl elfen i gyfrifo'r ffigur alldro terfynol, ac mae'n cyfuno'r elfennau hynny er mwyn nodi cyfanswm atebolrwydd cyfraddau treth incwm Cymru. Mae CThEF yn cyfrifo pob elfen gan ddefnyddio un neu fwy o ffynonellau data.

**1.3** Mae'r alldro ar gyfer 2022-23 yn cynrychioli cynnydd o 10.8% o'i gymharu â 2021-22. Roedd yr alldro ar gyfer treth incwm nad yw'n gynilion na difidendau wedi cynyddu 10.5% ar gyfer y DU gyfan yn 2022-23. Mae CThEF yn priodoli'r twf mewn refeniw o gyfraddau treth incwm Cymru yn 2022-23 i dwf enillion nominal uwch, sy'n debygol o fod oherwydd yr adferiad economaidd yn dilyn y pandemig ac amodau tyn y farchnad lafur yn ystod cyfnod o chwyddiant cynyddol.

#### Elfennau'r alldro

**1.4** Mae CThEF yn seilio'r cyfrifiad alldro yn bennaf ar atebolrwydd treth sefydledig, tua £2,668 miliwn, lle mae CThEF wedi nodi'r dreth sy'n ddyledus ac wedi cysoni cofnodion trethdalwyr yn llawn. Mae CThEF yn cyfrifo'r atebolrwydd sefydledig o'r data ar atebolrwydd treth terfynol yn y systemau treth incwm Talu Wrth Ennill (TWE) a Hunanasesiad.

**1.5** Mae CThEF yn gwneud addasiadau neu amcangyfrifon lle nad yw wedi cadarnhau'r dreth sy'n ddyledus eto, neu lle mae'n rhaid iddo amcangyfrif cyfran Cymru o symiau na ellir eu casglu neu ryddhad treth. Y gostyngiad mewn alldro a ddeilliodd o'r addasiadau hyn oedd £49 miliwn (net) (**Ffigur 2**).[1] Mewn rhai rhannau o'r cyfrifiad, nid oes gan CThEF ddata digon manwl ar gael i nodi atebolrwydd treth incwm, rhyddhad treth nac addasiadau eraill sy'n ymwneud â threthdalwyr unigol. Aeth CThEF ati i amcangyfrif cyfran Cymru o'r symiau hyn drwy ddefnyddio data eraill a oedd ar gael, fel data ar y boblogaeth ac incwm, er mwyn nodi'r cydbwysedd rhwng Cymru a gweddill y DU. Roedd cyfanswm gros yr holl amcangyfrifon ac addasiadau a wnaed gan CThEF yn £199 miliwn yn 2022-23, neu 7.6% o'r alldro a gofnodwyd, sy'n debyg i'r gyfran yn 2021-22.[2]

## Ffigur 2

Cyfrifiad Cyllid a Thollau EF (CThEF) o alldro refeniw cyfraddau treth incwm Cymru 2022-23

**Mae'r mwyafrif o'r alldro'n seiliedig ar atebolrwydd sefydledig ac mae cyfran fach wedi'i hamcangyfrif gan CThEF**

| | Alldro 2022-23 | | | Alldro 2021-22 |
|---|---|---|---|---|
| | Symiau sefydledig | Amcangyfrifon ac addasiadau | Cyfanswm | Cyfanswm |
| | (£mn) | (£mn) | (£mn) | (£mn) |
| Atebolrwydd Hunanasesiad | 799 | (8) | 792 | 749 |
| Atebolrwydd Talu Wrth Ennill (TWE) | 1,868 | (5) | 1,864 | 1,654 |
| Atebolrwydd pellach amcangyfrifedig | – | 58 | 58 | 54 |
| Didyniadau o refeniw | – | (95) | (95) | (93) |
| **Cyfanswm** | **2,668** | **(49)** | **2,618** | **2,363** |

**Nodiadau**

1 Mae atebolrwydd treth sefydledig Hunanasesiad a TWE wedi'u seilio'n bennaf ar ddata atebolrwydd treth a ddelir gan CThEF, er bod rhai symiau wedi'u seilio ar amcangyfrifon hefyd.

2 Mae'r atebolrwydd pellach amcangyfrifedig yn amcangyfrif CThEF o atebolrwydd treth TWE nad yw wedi'i gadarnhau eto a lle y disgwylir atebolrwydd treth o ffurflenni Hunanasesiad neu weithgarwch cydymffurfio yn y dyfodol.

3 Mae didyniadau o refeniw yn cynnwys rhyddhad treth ar gyfraniadau pensiwn a Rhodd Cymorth ac amcangyfrif o gyfran yr atebolrwydd treth ar ôl i gyflogwyr neu drethdalwyr beidio â thalu.

4 Mae rhifau a ddangosir mewn cromfachau yn rhifau negatif.

5 Efallai na cheir cyfanswm union oherwydd talgrynnu.

Ffynhonnell: Dadansoddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol o ddata Cyllid a Thollau EF

1 Nid yw swm yr atebolrwydd treth sefydledig a'r addasiadau net yn cyfateb yn union i'r alldro a gofnodwyd oherwydd bod rhai ffigurau wedi'u talgrynnu.

2 Mae'r cyfanswm gros hwn yn cynnwys atebolrwydd amcangyfrifedig o £75 miliwn a £124 miliwn o ddidyniadau. Mae amcangyfrifon ac addasiadau ar gyfer atebolrwydd Hunanasesiad a Thalu Wrth Ennill yn cynnwys y ddau swm sy'n cael eu hychwanegu fel amcangyfrifon a'r rheini sy'n cael eu didynnu o refeniw, felly mae'r cyfanswm gros hwn yn uwch na chyfanswm yr elfennau unigol a gyflwynir yn Ffigur 2.

**1.6** Ym mis Gorffennaf 2024, adroddodd CThEF rai anghysondebau a nodwyd yn y ffigurau alldro a gyhoeddodd yn flaenorol mewn perthynas â threth incwm Cymru a'r trethi cyfatebol mewn rhannau eraill o'r DU. Roedd yr anghysondebau'n deillio o gyfrif cofnodion trethdalwyr penodol ddwywaith, pan oedd trethdalwr wedi dewis cyflwyno ffurflen dreth Hunanasesiad yn ddi-angen. Rhwng 2019-20 a 2021-22, roedd hyn wedi golygu bod CThEF wedi gor-ddatgan yr alldro ar gyfer cyfraddau treth incwm Cymru o £17 miliwn y flwyddyn ar gyfartaledd, neu 0.8% o'r alldro a adroddwyd yn flaenorol.[3] Ers hynny, mae CThEF wedi diwygio ei gyfrifiadau alldro i ddileu'r cofnodion dyblyg ar gyfer pob un o'r blynyddoedd yr effeithir arnynt (**Ffigur 3**).[4] Nid yw'r cyfrifiadau diwygiedig hyn yn effeithio ar amgylchiadau trethdalwyr unigol nac yn awgrymu bod unrhyw drethdalwyr wedi talu'r swm anghywir o dreth incwm. Rydym wedi adolygu'r cyfrifiadau ac yn fodlon bod yr addasiadau a bennir yn rhesymol.

**1.7** Mae Trysorlys EF a Llywodraeth Cymru wedi trafod yr anghysondebau hanesyddol yn y cyfrifiadau alldro ac wedi cytuno nad oes angen gwneud unrhyw addasiadau i symiau a dalwyd yn flaenorol i Lywodraeth Cymru.

**1.8** Mae elfennau eraill methodoleg CThEF ar gyfer cyfrifo'r alldro wedi aros yr un fath fwy neu lai ers y flwyddyn flaenorol. Mae'r fethodoleg yn cynnwys rhai amcangyfrifon, er enghraifft lle nad oedd CThEF wedi cael ffurflenni gan drethdalwyr eto. Yn yr achosion hyn, gwnaethom werthuso rhesymeg CThEF dros amcangyfrif, gan gynnwys y tybiaethau perthnasol a'r data a oedd ar gael. Daethom i'r casgliad bod alldro cyfraddau treth incwm Cymru ar gyfer 2022-23 wedi'i ddatgan yn deg. Rydym yn disgrifio'r elfennau allweddol o'r modd y cyfrifwyd yr alldro yn fanylach isod.

## Ffigur 3

### Yr alldro gwreiddiol a diwygiedig ar gyfer cyfraddau treth incwm Cymru, 2019-20 i 2021-22

**Mae Cyllid a Thollau EF wedi diwygio'r ffordd y mae'n cyfrifo'r alldro o gyfraddau treth incwm Cymru er mwyn cywiro anghysondebau hanesyddol sy'n codi o gofnodion trethdalwyr wedi'u cyfri ddwywaith**

| Blwyddyn | Ffigurau alldro gwreiddiol | Ffigurau alldro diwygiedig | Canran y gwahaniaeth |
|---|---|---|---|
| | (£mn) | (£mn) | (%) |
| 2019-20 | 2,040 | 2,026 | 0.7 |
| 2020-21 | 2,140 | 2,123 | 0.8 |
| 2021-22 | 2,384 | 2,364 | 0.9 |

**Nodyn**

1 Efallai na fydd y ffigurau a nodir yn cyfateb i'r gwahaniaethau canran oherwydd talgrynnu.

Ffynhonnell: Dadansoddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol o ddata Cyllid a Thollau EF

3 O ystyried yr anghysondebau a effeithiodd ar gyfrifiadau'r ffigurau alldro yng Nghymru a gweddill y DU, nid yw'r effaith net ar y refeniw treth incwm y dylid fod wedi'i dalu i Lywodraeth Cymru yn cyfateb i'r symiau a adroddir yma.

4 Cyllid a Thollau EF, *Welsh Income Tax Outturn Statistics: 2022 i 2023*, Gorffennaf 2024.

## Atebolrwydd Hunanasesiad

**1.9** Mae cyfanswm yr atebolrwydd Hunanasesiad o £792 miliwn yn cynrychioli'r holl dreth incwm y gellir ei phriodoli i Gymru gan drethdalwyr Hunanasesiad Cymreig yn 2022-23. Mae CThEF yn nodi trethdalwyr Cymreig drwy ddefnyddio ei gofnod statws preswylio yng Nghymru yn ei system Amgylchedd Cyfrifiadurol ar gyfer Hunanasesiad (CESA). Mae'r cyfrifiad o atebolrwydd Hunanasesiad yn seiliedig yn bennaf ar gofnodion trethdalwyr Cymreig o CESA. Roedd CThEF wedi didynnu £8 miliwn er mwyn amcangyfrif cyfran Cymru o falansau Hunanasesiad perthnasol eraill lle nad oes data penodol ar gael.[5]

## Atebolrwydd TWE

**1.10** Mae cyfanswm yr atebolrwydd TWE o £1,864 miliwn yn cynrychioli'r holl dreth incwm y gellir ei phriodoli i Gymru gan drethdalwyr TWE Cymreig yn 2022-23. O dan TWE, mae cyflogwyr yn cyflwyno data misol i CThEF ar yr enillion a'r didyniadau treth a wneir ar gyfer eu cyflogeion ac mae CThEF yn cofnodi'r wybodaeth hon ar ei system Gwasanaeth Yswiriant Gwladol a TWE (system NPS). Mae CThEF yn nodi trethdalwyr Cymreig ar yr NPS drwy ddefnyddio dangosydd preswylio sy'n seiliedig ar wybodaeth am god post y trethdalwr. Mae CThEF yn nodi cyfanswm atebolrwydd treth incwm Cymru drwy echdynnu cofnodion trethdalwyr Cymreig o'r NPS.

**1.11** Mae mwyafrif yr atebolrwydd TWE yn seiliedig ar ddata trethdalwyr Cymreig a geir o systemau CThEF ond mae angen dosrannu elfennau eraill llai o faint hefyd. Roedd swm yr addasiadau hyn yn 2022-23 wedi arwain at ostyngiad mewn atebolrwydd o £5 miliwn.[6]

## Amcangyfrif o atebolrwydd pellach

**1.12** Caiff y rhan fwyaf o'r atebolrwydd Hunanasesiad ar gyfer 2022-23 ei sefydlu cyn cyfrifo'r alldro. Serch hynny, mae CThEF yn gwybod o flynyddoedd blaenorol y bydd atebolrwydd treth Hunanasesiad yn parhau i gael ei sefydlu a'i gasglu am hyd at chwe blynedd yn ddiweddarach. Mae hyn oherwydd bod CThEF yn parhau i dderbyn gwybodaeth ychwanegol gan drethdalwyr a thrwy ei weithgarwch cydymffurfio. Mae CThEF yn cyfrifo amcangyfrif o'r atebolrwydd ychwanegol ar gyfer yr elfennau hyn yn seiliedig ar berfformiad yn y gorffennol, gan amcangyfrif £58 miliwn yn alldro 2022-23.

5 Mae hyn yn cynnwys y canlynol: amcangyfrif o £4 miliwn o atebolrwydd ac asesiadau a gofnodwyd â llaw, nad ydynt yn nodi'r ffordd y mae'r atebolrwydd wedi'i rannu rhwng trethi; addasiad o £7 miliwn ar gyfer cofnodion sensitif, nad yw CThEF yn eu defnyddio wrth gyfrifo cyfraddau treth incwm Cymru; a didyniad o £19 miliwn ar gyfer cyfran y rhyddhad treth a hawlir drwy Hunanasesiad y gellir ei phriodoli i gyfraddau treth incwm Cymru, gan nad yw CThEF yn casglu data sy'n benodol i Gymru.

6 Mae hyn yn cynnwys didyniad o £11 miliwn ar gyfer cyfran y rhyddhad treth a roddir yn erbyn atebolrwydd TWE y gellir ei phriodoli i gyfraddau treth incwm Cymru, gan nad yw CThEF yn casglu data sy'n benodol i Gymru. Mae CThEF hefyd wedi gwneud addasiad o £6 miliwn er mwyn dosrannu'r dreth y mae'n ei chasglu gan gyflogwyr o dan gytundebau setlo TWE. Mae'r cytundebau hyn yn caniatáu i gyflogwyr wneud un taliad blynyddol i gwmpasu'r holl dreth sy'n ddyledus ar fân dreuliau neu fuddiannau, neu dreuliau neu fuddiannau afreolaidd neu annichonol, ar gyfer cyflogeion yn y cynllun. Gan fod atebolrwydd i dalu treth yn cael ei setlo drwy un taliad a wneir gan y cyflogwr, ni chaiff manylion trethdalwyr unigol eu cofnodi ac felly mae CThEF yn dadansoddi'r hyn a gyflwynir gan y cyflogwr er mwyn pennu cyfran Cymru o refeniw cytundeb setlo ledled y DU.

## Didyniadau o refeniw

**1.13** Didynnodd CThEF gyfanswm o £95 miliwn o'r refeniw alldro, sy'n cynnwys y canlynol.

- £17 miliwn ar gyfer atebolrwydd nad yw CThEF yn disgwyl ei gasglu. Ni chaiff rhywfaint o atebolrwydd treth incwm TWE a Hunanasesiad byth eu setlo gan nad yw cyflogwyr neu drethdalwyr yn talu'r symiau llawn sy'n ddyledus. Mae CThEF yn dadansoddi data hanesyddol ar gyfer y DU gyfan er mwyn nodi patrymau o atebolrwydd heb ei gasglu ac yna'n dosrannu swm sy'n gysylltiedig â chyfraddau treth incwm Cymru.

- £47 miliwn mewn cyfraniadau pensiwn a £31 miliwn mewn Rhodd Cymorth, y mae rhyddhad treth incwm yn gymwys i'r ddau ohonynt ar gyfradd ymylol treth incwm y trethdalwr. Mae gweinyddwyr cynlluniau pensiwn yn hawlio rhyddhad treth ar y gyfradd sylfaenol gan CThEF ar ran aelodau eu cynllun, ac mae elusennau yn hawlio rhyddhad treth ar y gyfradd sylfaenol gan CThEF ar ran eu rhoddwyr. Mae CThEF yn cyfrifo'r ddau ddidyniad drwy ddefnyddio data hanesyddol i amcangyfrif cyfran Cymru o bob rhyddhad treth a hawliwyd ledled y DU.

## Amcangyfrif o gyfraddau treth incwm Cymru ar gyfer 2023-24

**1.14** Mae CThEF yn amcangyfrif y bydd yn casglu £2,938 miliwn o refeniw drwy gyfraddau Cymru mewn perthynas â blwyddyn 2023-24 (**Ffigur 4** drosodd).[7] Mae hyn yn cyfateb i gynnydd o £320 miliwn (12.2%) yn erbyn alldro 2022-23. Bu cynnydd o 11.9% ar gyfer y DU yn gyffredinol. Mae'r cynnydd hwn yn adlewyrchu cynnydd chwyddiannol mewn enillion, ynghyd â'r penderfyniad i rewi bandiau a throthwyon treth incwm. Cynyddodd hyn faint y boblogaeth o drethdalwyr ac achosodd i rai trethdalwyr symud i ddosbarth treth uwch. Mae CThEF yn disgwyl cyhoeddi'r alldro terfynol ar gyfer y flwyddyn 2023-24 yn ei Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer 2024-25 erbyn mis Gorffennaf 2025.


**1.15** Mae'r amcangyfrif a lunnir gan CThEF dim ond at ddibenion adroddiadau ariannol ei gyfrifon blynyddol. Nid yw'n effeithio ar swm y refeniw y mae Llywodraeth Cymru yn ei dderbyn. Fodd bynnag, mae'n ddangosydd defnyddiol, yn seiliedig ar brofiad hanesyddol o swm y dreth incwm sy'n debygol o gael ei chasglu gan drethdalwyr Cymreig (Ffigur 4). Roedd yr alldro yn 2022-23 £51 miliwn (1.9%) yn uwch nag amcangyfrif dros dro CThEF.

7 Cyllid a Thollau EF, *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023 i 2024*, HC 47, Gorffennaf 2024.

## Ffigur 4

Yr amcangyfrif dros dro a'r alldro terfynol ar gyfer cyfraddau treth incwm Cymru, 2019-20 i 2023-24

**Mae Cyllid a Thollau EF (CThEF) yn amcangyfrif y bydd refeniw o gyfraddau treth incwm Cymru yn cynyddu 12.2% yn 2023-24, o £2,618 miliwn i £2,938 miliwn**




| | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 |
|---|---|---|---|---|---|
| Amcangyfrif dros dro | 1,998 | 2,096 | 2,337 | 2,567 | 2,938 |
| Alldro terfynol | 2,026 | 2,123 | 2,364 | 2,618 | |

**Nodiadau**

1 Symiau nominal yw'r holl ddata, sy'n golygu nad ydynt wedi cael eu haddasu ar gyfer chwyddiant.

2 Ym mis Gorffennaf 2024, cyhoeddodd CThEF ffigurau alldro diwygiedig ar gyfer y blynyddoedd cyn 2022-23 ar ôl canfod rhywfaint o ddyblygu refeniw treth incwm yn ei gyfrifiadau. Mae CThEF hefyd wedi diwygio'r amcangyfrifon dros dro ar gyfer blynyddoedd 2019-20 i 2022-23 i gymryd y dyblygiad hwn i ystyriaeth.

3 Mae CThEF yn disgwyl cyhoeddi'r alldro terfynol ar gyfer y flwyddyn 2023-24 yn ei Adroddiad Blynyddol a'i Gyfrifon ar gyfer 2024-25 erbyn mis Gorffennaf 2025.

Ffynhonnell: Dadansoddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol o ddata Cyllid a Thollau EF

**1.16** Nid yw'r fethodoleg a ddefnyddiwyd gan CThEF i amcangyfrifo refeniw o gyfraddau treth incwm Cymru yn 2023-24 wedi newid rhyw lawer o'r hyn a ddefnyddiwyd i gyfrifo amcangyfrifon 2022-23. Mae methodoleg CThEF yn seiliedig ar ddata trethdalwyr o'i Arolwg o Incwm Personol. Roedd y data diweddaraf a oedd ar gael i CThEF yn deillio o Arolwg 2021-22 a lluniwyd yr amcangyfrif ar hynny. Yna, addasodd CThEF y data i adlewyrchu newidiadau demograffig a pholisi y mae'n disgwyl neu'n gwybod iddynt ddigwydd rhwng 2021-22 a 2023-24. Mae'r Arolwg o Incwm Personol yn sampl o 1.5% o drethdalwyr y DU, ac mae hynny'n creu ansicrwydd samplu yn yr amcangyfrif o refeniw. Mae hefyd yn cyfuno cyfrifiad atebolrwydd TWE a Hunanasesiad ac felly nid yw'n adlewyrchu cyfrannau gwahanol pob math o drethdalwr rhwng Cymru a gweddill y DU. Mae risg gynhenid hefyd na fydd data o 2021-22 yn adlewyrchu'r sylfaen trethdalwyr yn gywir ar gyfer 2023-24.

**1.17** Ar ôl adolygu'r fethodoleg, daethom i'r casgliad bod dull gweithredu CThEF yn rhesymol.

# Rhan Dau

## Gweinyddu treth incwm Cymru

**2.1** Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn cwmpasu'r canlynol:

- Prosesau allweddol Cyllid a Thollau EF (CThEF) wrth weinyddu'r system treth incwm a'r ffordd rydym wedi cael sicrwydd arnynt;
- Gweithdrefnau CThEF i nodi a chynnal cofnod cyflawn a chywir o'r boblogaeth o drethdalwyr Cymreig; a
- sut mae CThEF yn nodi risgiau i gydymffurfiaeth ac yn ymateb iddynt.

**2.2** Mae CThEF yn defnyddio'r un systemau i weinyddu treth incwm p'un a ddaw o drethdalwr yng Nghymru neu weddill y DU. Fodd bynnag, mae CThEF yn gweithredu rheolau a gweithdrefnau ychwanegol i Gymru hefyd, ac rydym yn asesu'r rhain isod. Mae hyn yn adlewyrchu cyfrifoldeb CThEF i weinyddu treth incwm i drethdalwyr Cymreig yn yr un ffordd â'r gwasanaeth a ddarperir mewn rhannau eraill o'r DU.

**2.3** O dan Adran 2 o Ddeddf y Trysorlys ac Adrannau Archwilio 1921, mae'n rhaid i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol ystyried a yw systemau CThEF yn ddigonol i asesu a chasglu treth yn y DU, gan gynnwys treth incwm. Bob blwyddyn rydym yn cyhoeddi adroddiad (yr Adroddiad Safonol), ochr yn ochr ag Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon CThEF, sy'n nodi casgliadau'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol yn hyn o beth. Yn ein Hadroddiad Safonol ar gyfer 2023-24, daethom i'r casgliad bod CThEF wedi llunio rheoliadau a gweithdrefnau digonol i sicrhau gwiriad effeithiol o'r broses o asesu, casglu a dyrannu refeniw'n briodol, a bod y rhain yn cael eu gweithredu'n briodol.

**2.4** I gefnogi casgliadau'r adroddiad hwn, gwnaethom ymestyn ein profion ledled y DU i fynd i'r afael â risgiau a dulliau gweithredu sy'n berthnasol i weinyddu cyfraddau treth incwm Cymru. Gwnaethom hefyd gynnal gweithdrefnau penodol yn edrych ar weithgareddau glanhau cyfeiriadau a chydymffurfiaeth â threth ehangach CThEF. Llywiodd y gweithgareddau hyn ein hasesiad o gyflawnder a chywirdeb amcangyfrifon CThEF o dreth incwm Cymru. Wrth ddod i'n casgliadau, gwnaethom archwilio sawl elfen o weinyddiaeth dreth ddatganoledig, megis gwaith parhaus CThEF o gynnal a chadw cofnodion trethdalwyr Cymreig, a'r ffordd y nododd y risgiau i gydymffurfiaeth â threthi datganoledig ac yr ymatebodd iddynt.

## Y system treth incwm

**2.5** Mae system CThEF ar gyfer casglu treth incwm yn gyson ledled y DU. Yn dibynnu ar y math o incwm y mae unigolyn yn ei gael, caiff treth incwm ei hasesu a'i chasglu drwy ddidyniadau gan y cyflogwr o enillion o dan y drefn Talu wrth Ennill (TWE), drwy ffurflen Hunanasesiad a gyflwynir gan y trethdalwr, neu drwy'r ddau.

**2.6** Mae i'r prosesau TWE a Hunanasesiad egwyddorion cyffredin, er bod CThEF yn defnyddio systemau TG a ffynonellau data gwahanol er mwyn asesu a chasglu treth. Mae **Ffigur 5** yn nodi'r egwyddorion hyn ac yn disgrifio'r prif brosesau ar gyfer pob ffrwd treth incwm.

## Sicrwydd ynghylch prosesu treth incwm

**2.7** Mae ein rhaglen flynyddol o waith archwilio mewn perthynas â CThEF yn cynnwys gweithdrefnau sy'n rhoi sicrwydd ynghylch y rheolaethau allweddol wrth brosesu treth. Caiff y rheolaethau hyn eu rhannu'n fras yn ddau gategori:

- rheolaethau system awtomataidd o ran ymdrin â data, ei storio a'i brosesu;
- rheolaethau busnes allweddol cymhleth sy'n cynnwys lefel uchel o awtomatiaeth.


**2.8** Yn dilyn diweddariadau blynyddol i reolau busnes er mwyn adlewyrchu cyfraddau treth, trothwyon a lwfansau sy'n newid ar gyfer y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig, mae CThEF yn cwblhau sawl cam o brofion sicrwydd ar reolaethau busnes allweddol er mwyn cadarnhau gweithrediad y system. Fel rhan o'n harchwiliad, rydym yn gwerthuso cwmpas y profion hyn ac yn ail-wneud elfennau o'r gwaith er mwyn cadarnhau casgliadau CThEF. Mae'r prosesau allweddol ar gyfer TWE yn cynnwys:

- cysoni gwybodaeth gan gyflogwyr â chofnodion treth personol bob blwyddyn er mwyn cadarnhau'r dreth sy'n ddyledus ar enillion a chyfrifo unrhyw achosion o ordalu neu dandalu treth yn seiliedig ar y wlad y preswylir ynddi; a
- rhoi codau treth ar gyfer trethdalwyr TWE bob blwyddyn sy'n cynnwys gwybodaeth am breswyliaeth er mwyn sicrhau bod cyflogwyr yn didynnu treth o dan reolau treth y wlad gywir.

**2.9** Mae CThEF yn cymhwyso prosesau tebyg at bob ffurflen Hunanasesiad unigol a dderbynnir ganddo. Mae trethdalwyr Hunanasesiad yn gwneud taliadau ar y cyfrif ac yn cyfrifo eu hatebolrwydd treth eu hunain ar ddiwedd y flwyddyn gan ddefnyddio cyfrifiannell CThEF ar y ffurflen dreth a gyflwynir.

## Ffigur 5
System treth incwm y DU

**Mae'r prosesau Talu Wrth Ennill (TWE) a Hunanasesiad yn rhannu egwyddorion cyffredin o ran asesu a chasglu treth incwm**




**Nodiadau**

1 Nid yw prosesau Talu Wrth Ennill a Hunanasesiad yn digwydd ar yr un pryd. Mae Talu Wrth Ennill yn cael ei brosesu yn ystod y flwyddyn dreth (6 Ebrill i 5 Mawrth) ac yn cael ei gysoni ar ôl diwedd y flwyddyn dreth. Nid yw Ffurflenni Treth Hunanasesiad yn cael eu cyflwyno tan fis Ionawr ar ôl diwedd y flwyddyn dreth.

2 Ar ôl i'r flwyddyn dreth ddod i ben, mae proses gysoni Talu Wrth Ennill CThEF yn cyfrifo'r atebolrwydd treth incwm ar gyfer pob trethdalwr gan ddefnyddio'r holl ddata sydd ar gael. Mae'r atebolrwydd a gyfrifwyd yn cael ei chymharu â'r symiau a ddidynnwyd yn y tarddiad neu a gasglwyd gan drethdalwyr yn uniongyrchol i benderfynu a yw'r dreth gywir wedi'i chasglu.

Ffynhonnell: Dadansoddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol o brosesau Cyllid a Thollau EF

## Treth incwm ddatganoledig

**2.10** Y brif ffordd y mae'r broses o weinyddu treth incwm Cymru yn wahanol i brosesau'r DU yw'r rheolau busnes a ddefnyddir gan system CThEF wrth gwblhau'r cyfrifiadau atebolrwydd treth a chod treth. Ni fu unrhyw newidiadau sylweddol i reolau'r system ers ein hadroddiad diwethaf a oedd yn cwmpasu 2022-23.

**2.11** Mae trethdalwr Cymreig yn rhywun sy'n atebol am dalu treth ac y mae ei brif breswylfa yn ystod y flwyddyn dreth yng Nghymru.[8] Dyma'r rheolau y mae system CThEF yn eu cymhwyso ar gyfer trethdalwyr Cymreig:

- Mae'n gwirio statws preswylio'r unigolyn ac yn gosod y rhagddodiad cod treth 'C' pan nodir ei fod yn preswylio yng Nghymru. Mae hyn yn rhoi cyfarwyddyd i gyflogwyr gasglu treth o dan gyfraddau treth Cymru. Lle nad yw unigolyn yn preswylio yng Nghymru mwyach, mae'r system yn tynnu'r rhagddodiad 'C'.
- Lle mae'r system yn nodi bod unigolyn yn preswylio yng Nghymru, mae'n cymhwyso cyfraddau a bandiau treth Cymru at yr incwm a nodwyd wrth gyfrifo'r atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn dreth gyfredol.
- Os nodwyd bod unigolyn yn drethdalwr Cymreig a'i fod wedi'i gofrestru ar gynllun TWE, mae'r system yn defnyddio cyfraddau treth incwm Cymru i gyfrifo cod treth newydd ar gyfer y flwyddyn ganlynol.

**2.12** Mae ffurflenni Hunanasesiad yn cynnwys blwch ticio er mwyn i'r trethdalwr nodi a oeddent yn preswylio yng Nghymru yn ystod y flwyddyn dreth. Os yw'r hyn a nodir yn wahanol i gofnodion CThEF, bydd CThEF yn defnyddio'r cyfeiriad a ddelir ganddo i gyfrifo atebolrwydd treth y trethdalwr. Bydd CThEF yn hysbysu'r trethdalwr am yr anghysondeb ac yn gofyn iddo ddiweddaru ei gyfeiriad os bydd angen. Mae **Ffigur 6** yn dangos lle mae gwahaniaethu o'r fath yn digwydd yn y system treth incwm.


## Rhyddhad treth ar gyfraniadau pensiwn

**2.13** Rhaid i CThEF ddynodi trethdalwyr Cymreig fel y caiff rhyddhad treth ei ddyrannu'n gywir. Mae gweinyddwyr pensiwn yn hawlio rhyddhad treth yn y tarddiad ar ran eu haelodau ac yn ychwanegu hyn at gyfraniadau eu haelodau. Mae CThEF yn cymhwyso rhyddhad treth ar gyfraniadau pensiwn ar y gyfradd sylfaenol o 20% i bob trethdalwr. Gall trethdalwyr Cymreig sy'n talu treth ar gyfradd uwch nag 20% hawlio'r rhyddhad treth sy'n weddill drwy ffurflen Hunanasesiad neu drwy gysylltu â CThEF.

8 Tybir yn awtomatig fod seneddwyr Cymru yn drethdalwyr Cymreig mewn unrhyw flwyddyn dreth tra byddant yn eu swydd. Mae hyn yn berthnasol i aelodau etholedig y Senedd ac aelodau Seneddol yn San Steffan sy'n cynrychioli etholaethau Cymru. Ar ôl i CThEF gofnodi Seneddwr Cymru fel trethdalwr Cymreig, bydd ei system yn diystyru ei reolau busnes arferol yn awtomatig, ac yn eu cofnodi fel trethdalwyr Cymreig nes i CThEF ailosod y swyddogaeth ddiystyru ar gyfer pob Seneddwr. Dywedodd CThEF wrthym nad oedd wedi nodi unrhyw faterion wrth gofnodi Seneddwyr Cymru fel trethdalwyr Cymreig yn ystod 2023-24.

## Ffigur 6
Gwahaniaethau yn y system treth incwm ar gyfer trethdalwyr Cymreig

**Mae rheolau busnes Cyllid a Thollau EF (CThEF) wedi'u llunio i brosesu treth incwm gan ddefnyddio'r cyfraddau a'r trothwyon sy'n gymwys i statws preswylio trethdalwr**




Ffynhonnell: Dadansoddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol o brosesau Cyllid a Thollau EF

**2.14** Er mwyn gweinyddu rhyddhad yn ei darddiad, mae CThEF yn gofyn i bob gweinyddwr pensiwn gyflwyno ffurflen wybodaeth flynyddol sy'n darparu manylion eu haelodau a'u cyfraniadau pensiwn yn ystod y flwyddyn dreth flaenorol. Mae system Rhyddhad yn y Tarddiad CThEF wedyn yn paru aelodau'r cynllun yn awtomatig â chyfeiriadau a ddelir gan CThEF ac yn cadarnhau statws preswylio aelodau o'r cynllun pensiwn i nodi trethdalwyr Cymreig a sicrhau y cymhwysir y rhyddhad cywir yn y tarddiad. Mae CThEF wedyn yn cyhoeddi adroddiad i bob gweinyddwr pensiwn yn cadarnhau statws preswylio eu haelodau. Cadarnhaodd CThEF statws preswylio ar gyfer 93% o aelodau cynlluniau pensiwn yng Nghymru a'r Alban yn dilyn blwyddyn dreth 2022-23, sef cyfran debyg i'r pum mlynedd ddiwethaf. Nid oes ffigur sy'n benodol i Gymru ar gyfer cyfran y statysau preswylio sydd wedi'u cadarnhau.

## Rhyddhad treth ar gyfraniadau Rhodd Cymorth

**2.15** Mae CThEF yn rhoi rhyddhad treth ar gyfraniadau Rhodd Cymorth yng Nghymru ar gyfradd sylfaenol y DU, sef 20%. Y rheswm dros hyn yw nad oes gan CThEF systemau ar waith i nodi statws preswylio trethdalwyr sy'n cyfrannu at elusen. Gall pob trethdalwr sy'n talu treth uwchlaw'r gyfradd sylfaenol hawlio'r gwahaniaeth rhwng ei gyfradd treth a'r gyfradd sylfaenol ar ei rodd. Pan wneir cyfraniadau gan drethdalwyr Cymreig, mae CThEF yn cymhwyso'r gyfradd gywir o ryddhad pan gaiff ei hysbysu o'r swm a roddwyd naill ai drwy gais i ddiwygio cod treth neu drwy ffurflen Hunanasesiad.

## Y boblogaeth o drethdalwyr Cymreig

**2.16** Yn ôl cyfrifiad CThEF, roedd 1.5 miliwn o drethdalwyr Cymreig yn 2022-23, sy'n gynnydd o 4.4% ers 2021-22.[9] Roedd trethdalwyr cyfradd uwch a chyfradd ychwanegol yn cyfrif am 9.4% o'r boblogaeth a oedd yn talu treth incwm Cymru yn 2022-23 (o gymharu ag 8.4% yn 2021-22) a gwnaethant gyfrannu 44.0% o'r dreth incwm a dalwyd gan drethdalwyr Cymreig (o gymharu â 42.7% yn 2021-22). Mae'r cynnydd hwn yn adlewyrchu'r penderfyniad i rewi trothwyon treth a'r ffaith bod trethdalwyr wedi symud i ddosbarthiadau treth uwch. Roedd trethdalwyr cyfradd sylfaenol yn cyfrif am 90.6% o'r boblogaeth ac yn darparu bron i 56.0% o'r dreth incwm a dalwyd gan drethdalwyr Cymreig yn gyffredinol (**Ffigur 7**). Mae hyn wedi gostwng o 92.8% o drethdalwyr ac o 60.2% o'r dreth a dalwyd yn 2019-20.

## Sicrwydd ynghylch cyfeiriadau

**2.17** Yr her o hyd i CThEF wrth weinyddu cyfraddau treth incwm Cymru yw cynnal cofnodion cywir a chyflawn o'r boblogaeth o drethdalwyr Cymreig. Mae gan CThEF nifer o ffynonellau gwybodaeth am newidiadau mewn cyfeiriadau ond mae'n dibynnu'n bennaf ar drethdalwyr yn rhoi gwybod iddo am unrhyw newidiadau o'r fath yn brydlon, er nad oes gofyniad cyfreithiol i drethdalwyr wneud hynny. Mae CThEF wedi bod yn edrych yn 2024-25 ar sut gall atgoffa trethdalwyr yn well am eu cyfrifoldeb i roi gwybod i CThEF am newidiadau mewn cyfeiriadau, gan gynnwys drwy negeseuon yn y Cyfrif Treth Personol ar-lein. Mae CThEF hefyd yn cael gwybodaeth am gyfeiriadau o ffynonellau eraill fel cyflogwyr, er nad yw'n ofynnol i gyflogwyr roi diweddariadau pan fydd eu cyflogeion yn newid eu cyfeiriad.


**2.18** Mae'n rhaid i wybodaeth am gyfeiriadau fod yn gywir er mwyn sicrhau y caiff y swm cywir o dreth ei gasglu gan unigolion a'i ddyrannu i'r llywodraeth briodol. Mae gan CThEF sawl proses sicrwydd ar waith i gynnal cyflawnrwydd a chywirdeb y data cyfeiriadau a ddefnyddir ganddo i nodi trethdalwyr Cymreig (**Ffigur 8** ar dudalen 22).

9 Cyllid a Thollau EF, *Welsh Income Tax Outturn Statistics: 2022 i 2023*, Gorffennaf 2024.

## Ffigur 7

Cyfran y talwyr treth incwm yn ôl band a threth incwm a dalwyd yng Nghymru, 2019-20 i 2022-23

**Roedd talwyr treth incwm cyfradd sylfaenol yn cyfrif am dros 90% o'r boblogaeth yn 2022-23 gan gyfrannu bron i ddwy ran o dair o'r dreth incwm a dalwyd**




| | Cyfran ganrannol y talwyr treth incwm 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 | Cyfran y dreth incwm a dalwyd 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfradd ychwanegol | 0.3 | 0.3 | 0.4 | 0.4 | 9.1 | 8.8 | 10.2 | 9.7 |
| Cyfradd uwch | 6.9 | 7.3 | 8.0 | 9.0 | 30.8 | 31.7 | 32.5 | 34.3 |
| Cyfradd sylfaenol | 92.8 | 92.4 | 91.6 | 90.6 | 60.2 | 59.4 | 57.3 | 56.0 |

**Nodyn**

1 2022-23 yw'r flwyddyn ddiweddaraf y mae data ar gael ar ei chyfer.

Ffynhonnell: Dadansoddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol o ddata Cyllid a Thollau EF

## Ffigur 8

Sicrwydd ynghylch y boblogaeth o drethdalwyr Cymreig

**Mae Cyllid a Thollau EF (CThEF) yn cynnal nifer o weithgareddau sicrwydd i gynnal cyflawnder a chywirdeb sylfaen drethu Cymru**

| Gweithgarwch sicrwydd | Disgrifiad a diben | Canlyniadau |
|---|---|---|
| Rheolaethau sy'n sicrhau bod preswyliaeth yng Nghymru yn cael ei phennu'n gywir gan ddefnyddio'r cyfeiriad a ddelir gan CThEF | | |
| Codau post newydd | Cymharu rhestr CThEF o godau post Cymru â data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) i sicrhau bod codau post yn gyfredol. | Mae CThEF yn cael data ar godau post bob chwarter gan y ONS. Ychwanegodd CThEF 402 o godau post newydd yn 2023-24. |
| Glanhau cyfeiriadau | Sganiau o gofnodion trethdalwyr a ddelir gan CThEF i nodi codau post coll neu annilys a fyddai'n arwain at roi statws preswylio anghywir. | Nododd sganiau a gynhaliwyd ym mis Awst 2023 fod 65,200 o godau post coll ac annilys.<br>Diweddarodd CThEF 807 o'r codau post hyn oherwydd bod ganddynt gofnod o gyflogaeth gyfredol neu bensiwn.[1] |
| Codau post trawsffiniol | Mae systemau CThEF yn nodi newidiadau i gyfeiriadau lle mae'r cyfeiriadau newydd mewn cod post sy'n croesi'r ffin rhwng Cymru a Lloegr. Mae CThEF yn adolygu'r achosion hyn i sicrhau ei fod yn pennu'r statws preswylio cywir. | Yn 2023-24, adolygodd CThEF 434 o achosion trawsffiniol, a diwygiwyd 89 ohonynt yn dilyn ymchwiliad. |
| Statws preswylio coll | Sganiau i nodi cofnodion trethdalwr Cymreig sydd ddim wedi'u fflagio fel cofnodion o'r fath yn y system. | Nododd sganiau CThEF 388 o achosion yn ystod 2023-24, a chafodd pob un ohonynt ei ddiweddaru. |
| Rheolaethau i fonitro gweithrediad Talu Wrth Ennill (TWE) gan gyflogwyr | | |
| Sganiau cymharu codau treth | Cymharu codau treth cyflwyniadau TWE â chofnodion trethdalwyr CThEF i nodi achosion lle mae'r cyflogwr yn rhoi cod treth gwahanol i CThEF. | Ym mis Ionawr 2024, nododd CThEF 45,955 o achosion lle nad oedd rhagddodiaid 'C' wedi cael eu defnyddio'n gywir ar godau treth.[2] Ysgrifennodd at gyflogwyr i ofyn iddynt ddiweddaru'r codau treth anghywir. |
| Rheolaethau i nodi cyfeiriadau anghywir a ddelir gan CThEF | | |
| Ymarfer sicrhau data trydydd parti | Cymharu cofnodion cyfeiriadau trethdalwyr a ddelir gan CThEM â ffynonellau data trydydd parti i nodi achosion lle nad yw cofnodion CThEF yn cyfateb â'r data trydydd parti. Yr ymarfer hwn yw prif ffynhonnell CThEF o sicrwydd ynglŷn â chywirdeb ei gofnodion cyfeiriadau. | Mae CThEF a Llywodraeth Cymru wedi cytuno i gynnal yr ymarfer hwn bob dwy flynedd. Cafodd yr un diweddaraf ei wneud ym mis Awst 2023 a chymharodd 3 miliwn o gofnodion cyfeiriadau yng Nghymru. Ar gyfer 75.8% o'r cofnodion hyn, llwyddodd i gyfateb y breswyliaeth i honno oedd yn cael ei hawgrymu gan ddata'r trydydd parti. Nododd 10,745 o gofnodion lle nad oedd y breswyliaeth a bennwyd gan ddata CThEF yn cyfateb i'r breswyliaeth oedd yn cael ei hawgrymu gan ddata trydydd parti ac ysgrifennodd at y rhan fwyaf o'r trethdalwyr hyn. |
| Unigolion cyfoethog | Mae CThEM yn cynnal gwiriadau a gweithdrefnau i adolygu symudiadau unigolion cyfoethog a sicrhau bod eu cyfeiriadau'n gyfredol.[3] Mae timau arbenigol yn datblygu dealltwriaeth fanwl o gyllid, ymddygiad a risgiau cydymffurfio'r trethdalwyr hyn. | |

**Nodiadau**

1 Mae codau post annilys a nodir yn cael eu cywiro neu eu gosod â llaw fel rhai Cymreig lle nad oes modd pennu'r cod post cywir o'r cyfeiriad.

2 Daw'r ffigurau o ddadansoddiad CThEF o sganiau cod treth misol ac maent yn dangos nifer y codau treth lle na chafodd rhagddodiad 'C' Cymru ei ddefnyddio'n gywir, a lle byddai'r cod treth wedi bod yn gywir fel arall.

3 Mae CThEF yn diffinio unigolion cyfoethog fel rhai sydd ag incwm o £200,000 neu fwy, neu oedd ag asedau oedd yn cyfateb i £2 filiwn neu fwy yn unrhyw un o'r tair blynedd diwethaf.

Ffynhonnell: Dadansoddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol o weithgareddau Cyllid a Thollau EF

## Sganiau cod post

**2.19** Mae CThEF yn sganio cofnodion trethdalwyr i adnabod codau post sydd ar goll neu godau post annilys a fyddai'n arwain at ddefnyddio statws preswylio anghywir. Nododd sgan 2023-24, a gynhaliwyd ym mis Awst 2023, fod 65,200 o godau post naill ai ar goll neu'n annilys. Mae CThEF yn ymchwilio i achosion lle roedd unigolion naill ai'n gyflogedig neu'n derbyn pensiwn, ac yn eu diweddaru. Yn 2023-24, diweddarodd CThEF 807 o gofnodion, o gymharu â 770 yn 2022-23. Caiff achosion nad yw CThEF wedi'u diweddaru eu nodi fel rhai segur gan nad oes unrhyw incwm y mae'n rhaid talu treth arno ar hyn o bryd ac felly dim treth incwm y gellir ei phriodoli i Gymru yn 2023-24.

## Gweinyddu codau treth Cymru

**2.20** Os na fydd cyflogwr yn cymhwyso'r rhagddodiad 'C' at god treth cyflogai, bydd yn didynnu treth ar gyfradd y DU. Mae CThEF yn cysoni'r hyn y mae pob trethdalwr wedi'i dalu mewn treth yn erbyn yr hyn y cred y dylai fod wedi'i dalu ar ddiwedd y flwyddyn dreth. Yna mae CThEF yn defnyddio'r wybodaeth derfynol hon a'r statws preswylio a ddelir ar ei system i gyfrifo atebolrwydd treth pob trethdalwr. Felly, nid effeithir ar yr alldro ar gyfer Cymru pan na fydd y rhagddodiad 'C' mewn cod treth unigolyn wedi ei weithredu'n gywir gan gyflogwr.

**2.21** Bob mis mae CThEF yn cymharu codau treth mewn cyflwyniadau TWE â'i gofnod trethdalwyr ei hun er mwyn nodi achosion lle mae cyflogwyr yn defnyddio cod treth gwahanol. Ym mis Ionawr 2024, roedd 45,955 achos (2.5% o'r achosion) lle nad oedd cyflogwyr yn gweithredu cod treth â rhagddodiad 'C'. Mae'r nifer hwn yn amrywio yn ystod y flwyddyn ond mae wedi parhau i fod yn is na 3% ers mis Mawrth 2021. Rydym wedi annog CThEF yn y gorffennol i gysylltu â chyflogwyr sy'n cofnodi codau treth anghywir, yn enwedig y rhai sy'n gwneud gwallau cyson. Ym mis Tachwedd 2024, ehangodd CThEF ei broses adrodd i gynnwys gwybodaeth ychwanegol am gyflogwyr sy'n defnyddio codau treth anghywir, gan gynnwys y sector maen nhw'n gweithredu ynddo, nifer y cyflogeion, a'r system cyflogres sy'n cael ei defnyddio.

**2.22** Pan fydd CThEF yn gweld nad yw cyflogwr yn defnyddio'r cod treth cywir, bydd yn anfon hysbysiad P6 yn gofyn iddo ddiweddaru cod treth y cyflogai. Dywedodd CThEF wrthym, o fis Ionawr 2025 ymlaen, y bydd yn dechrau cysylltu â chyflogwyr sy'n gwneud nifer fawr o wallau er mwyn deall y rhesymau a darparu cymorth.

## Asesu risg a gwaith cynllunio o ran cydymffurfiaeth

**2.23** Mae CThEF yn defnyddio'r un dull mesur cydymffurfiaeth ar sail risg i gasglu treth incwm yng Nghymru ag y mae'n ei ddefnyddio yng ngweddill y DU. Mae'r dull hwn yn cynnwys:

- **hyrwyddo** cydymffurfiaeth drwy ddylunio prosesau i annog a helpu cwsmeriaid i gael pethau'n iawn y tro cyntaf;
- **atal** diffyg cydymffurfiaeth drwy ddylunio'r broses yn well a gweithredu syniadau cwsmeriaid, yn ogystal â chynnig cyfle i gywiro camgymeriadau; ac
- **ymateb** i risgiau o ran cydymffurfiaeth, ymchwilio iddynt a'u hunioni gan ddefnyddio gweithgarwch wedi'i deilwra pan fydd angen ymyrryd.

**2.24** Fel rhan o'i Gytundeb Lefel Gwasanaeth â Llywodraeth Cymru, mae CThEF yn llunio Darlun Strategol o Risg ar gyfer cyfraddau treth incwm Cymru yn flynyddol er mwyn asesu risgiau i gydymffurfiaeth sy'n berthnasol i Gymru a chynllunio ar eu cyfer. Ar gyfer y Darlun Strategol hwn o Risg, mae CThEF yn ystyried y risgiau allweddol i gydymffurfiaeth ar lefel gyffredinol y DU ac yn cymhwyso gwerth sy'n cynrychioli cyfran y risgiau hyn sy'n berthnasol i Gymru. Mae'n cyfrifo pob risg yn unol â chyfran Cymru o dreth incwm y DU yn Ystadegau Alldro Treth Incwm Cymru. Nid yw CThEF yn amrywio maint y gyfran hon ar gyfer pob risg ac nid yw wedi profi ei dybiaeth bod lefel diffyg cydymffurfiaeth yng Nghymru yr un peth â lefel diffyg cydymffurfiaeth yng ngweddill y DU. Dywedodd y byddai heriau methodolegol a chostau sylweddol yn gysylltiedig â gwneud hynny. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, nid yw CThEF wedi nodi unrhyw risgiau sylweddol sy'n benodol i Gymru ac mae'n ystyried bod y prif risgiau i dreth incwm Cymru yr un fath â'r rhai ar gyfer y DU gyfan. Mae'r risgiau hyn yn cynnwys:

- osgoi trethi, lle mae unigolion neu fusnesau yn hepgor, yn celu neu'n camliwio gwybodaeth yn fwriadol er mwyn lleihau eu hatebolrwydd i dalu treth;
- yr economi gudd, lle na chaiff incwm trethadwy ei ddatgan neu lle y caiff incwm datganedig ei danddatgan yn fwriadol; ac
- arbed trethi, lle y camfanteisir ar reolau treth er mwyn cael mantais treth nad oedd Senedd y DU erioed wedi'i bwriadu.

## Gweithgarwch cydymffurfiaeth a rheoli dyledion CThEF

### Gweithgarwch cydymffurfiaeth

**2.25** Ar draws y DU, agorodd CThEF 311,000 o achosion yn ymwneud â chydymffurfiaeth yn 2023-24 (2022-23: 299,000) a chaeodd 320,000 (2022-23: 280,000). Ychydig iawn o wybodaeth sydd gan CThEF am faint o'r gweithgarwch cydymffurfio hwn sy'n cael ei wneud yng Nghymru. Mae ei system gydymffurfiaeth yn galluogi CThEF i 'godi fflag' lle mae achos posibl o gamddefnyddio statws preswylio wedi'i nodi. Rydym ar ddeall nad oes unrhyw 'fflagiau' o'r fath ar y system gydymffurfiaeth ar hyn o bryd. Dywedodd CThEF wrthym fod angen chwilio systemau gwybodaeth gwahanol er mwyn cael gwybodaeth am nifer yr achosion cydymffurfio gweithredol sy'n ymwneud â threthdalwyr Cymreig am resymau nad ydynt yn ymwneud â'u statws fel trethdalwyr Cymreig. Yn wahanol i'r system treth incwm, sy'n gallu fflagio trigolion Cymreig, ni all system wybodaeth rheoli cydymffurfiaeth CThEF nodi pobl sy'n byw yng Nghymru yn hawdd ac mae'n rhaid cymharu gwybodaeth â data eraill er mwyn nodi cyfanswm yr achosion o ddiffyg cydymffurfio yng Nghymru.

**2.26** Mae CThEF yn mesur effeithiolrwydd ei weithgareddau gorfodi a chydymffurfio drwy enillion cydymffurfio, ei amcangyfrif o'r refeniw ychwanegol y mae'n ystyried ei fod wedi'i gynhyrchu, a'r colledion y mae wedi'u hatal. Yn 2023-24, roedd enillion CThEF o'i weithgareddau cydymffurfiaeth â threth ar gyfer y DU gyfan yn £41.8 biliwn, sef cynnydd o 23% o gymharu â 2022-23 (mewn termau arian). Roedd yr enillion cydymffurfio yn 2023-24 yn uwch na tharged CThEF o £40.5 biliwn.

**2.27** Mae CThEF yn amcangyfrif £110 miliwn o enillion cydymffurfio yn 2022-23 o safbwynt cyfran Cymru o'r risg yn y Darlun Strategol o Risg. Mae CThEF hefyd wedi amcangyfrif mai £390 miliwn oedd cyfran Cymru o golledion net o'r risgiau yn y Darlun Strategol o Risg yn 2021-22. Dyma'r data diweddaraf sydd ar gael. Mae CThEF yn cyfrifo'r ffigurau hyn fel cyfran o ffigur cyfatebol y DU, yn hytrach na defnyddio data penodol i Gymru er mwyn meintioli'r risgiau. Nid yw CThEF yn ystyried nac yn adrodd ar yr amrywiad daearyddol rhwng Cymru a gweddill y DU wrth asesu risgiau i gydymffurfiaeth na llwyddiant cymharol y gweithgarwch cydymffurfio.

### Bwlch treth

**2.28** Y bwlch treth yw'r gwahaniaeth rhwng swm y dreth y dylid ei dalu a'r hyn a delir mewn gwirionedd. Nid yw CThEF yn nodi bwlch treth penodol i Gymru ar hyn o bryd. Mewn ymateb i adroddiad gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, nododd CThEF y byddai cyfrifo bwlch treth penodol i Gymru yn anodd am resymau methodolegol ac oherwydd lefel uchel yr ansicrwydd a fyddai'n gysylltiedig â dadansoddiad o'r fath.

**Rheoli dyledion**

**2.29** Mae'r ffordd y caiff dyledion treth eu rheoli gan CThEF yn effeithio ar faint o dreth incwm nas telir yn y lle cyntaf a gesglir maes o law ledled y DU, gan gynnwys yng Nghymru. Mae ffactorau allanol sy'n effeithio ar allu trethdalwyr i dalu'r dreth sy'n ddyledus ganddynt, gan gynnwys pwysau chwyddiannol presennol a chynnydd mewn costau byw, ac mae hynny'n effeithio ar falans dyledion CThEF. Ar 31 Mawrth 2024, cyfanswm y dyledion treth ar gyfer y DU oedd £43.0 biliwn, sydd 1.9% (£0.9 biliwn) yn is na'r dyledion a gofnodwyd ar 31 Mawrth 2023. Er y gostyngiad, mae dyledion treth yn dal yn uwch nag yn y pum mlynedd cyn y pandemig, pan oedd dyledion treth tua £15 biliwn fel arfer. Nid yw CThEF yn cynhyrchu amcangyfrif o ddyledion treth penodol i Gymru ar hyn o bryd.

**2.30** Ar ôl cwblhau'r gwaith ychwanegol hwn ar faterion treth datganoledig, rydym yn fodlon bod gan CThEF reolau a gweithdrefnau ar waith i asesu a chasglu treth incwm Cymru a'i fod yn cydymffurfio â hwy.

# Rhan Tri

## Costau

**3.1** Mae'r rhan hon yn ystyried y costau gweinyddol yr anfonebodd Cyllid a Thollau EF (CThEF) Lywodraeth Cymru amdanynt mewn perthynas â chyfraddau treth incwm Cymru, ac a yw'r costau hyn yn rhesymol.

**3.2** O dan y Cytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng CThEF a Llywodraeth Cymru, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ad-dalu costau ychwanegol net i CThEF am weinyddu pwerau treth incwm Cymru.

**3.3** Mae fframwaith ategol yn nodi'r egwyddorion ar gyfer pennu'r costau ychwanegol net. Dim ond costau sy'n ymwneud yn benodol â gweinyddu pwerau treth incwm datganoledig Cymru y mae CThEF yn eu hailgodi ar Lywodraeth Cymru ac nid yw'n ailgodi costau gweinyddu'r system treth incwm gyffredinol yng Nghymru arni.

### Costau yr aed iddynt yn 2023-24

**3.4** Yn 2023-24, roedd CThEF wedi anfonebu Llywodraeth Cymru am £0.43 miliwn o gostau yn ymwneud â gweinyddu cyfraddau treth incwm Cymru, sy'n cyfateb i'r swm a ailgododd CThEF yn 2022-23. Roedd yr holl wariant yn ymwneud â chostau gweithredu. Roedd y costau yr aed iddynt yn 2023-24 islaw'r gyllideb o £0.51 miliwn. Y rheswm pennaf dros y tanwariant hwn yw'r ffaith bod staff CThEF wedi treulio llai o amser na'r disgwyl ar gyfraddau treth incwm Cymru. Ni fu unrhyw newidiadau sylweddol i'r broses ailgodi tâl yn 2023-24.

**3.5** Gwnaethom archwilio'r ffordd roedd CThEF yn amcangyfrif costau casglu a gweinyddu cyfraddau treth incwm Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024. Yn seiliedig ar ein gwaith archwilio, daethom i'r casgliad bod y swm a dalwyd gan Lywodraeth Cymru yn gywir a theg yng nghyd-destun y cytundeb rhwng CThEF a Llywodraeth Cymru.

# Atodiad Un

## Ein sail dystiolaeth

**1** Mae Adran 80HA o Ddeddf Cymru 1998, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cyllid 2014, yn ei gwneud yn ofynnol i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol baratoi adroddiad ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar y canlynol:

- pa mor ddigonol yw unrhyw reolau a gweithdrefnau y mae Cyllid a Thollau EF (CThEF) wedi eu rhoi ar waith, o ganlyniad i ddarpariaethau cyfraddau Cymru, i sicrhau bod y dreth incwm sy'n cael ei chodi yn cael ei hasesu a'i chasglu'n briodol ar gyfraddau sy'n cael eu pennu gan y darpariaethau hynny;
- a gydymffurfir â'r rheolau a'r gweithdrefnau hyn;
- cywirdeb y symiau sy'n cael eu dwyn i gyfrif gan CThEF sy'n ymwneud â threth incwm y gellir ei phriodoli i benderfyniad ar gyfraddau i Gymru; a
- cywirdeb a thegwch y symiau a ad-delir i CThEF fel treuliau gweinyddol.

**2** Er mwyn dod i'r casgliadau a nodwyd yn yr adroddiad hwn mewn perthynas â'r rheolau a'r gweithdrefnau a weithredir gan CThEF, gwnaethom ddefnyddio ein gwaith archwilio statudol ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon CThEF yn uniongyrchol, gan gynnwys adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol ar reolaethau CThEF ar gyfer asesu, casglu a dyrannu treth yn briodol o dan Adran 2 o Ddeddf y Trysorlys ac Adrannau Archwilio 1921. Gwnaethom hefyd gwblhau gweithdrefnau archwilio penodol dros reolaethau sy'n berthnasol i'r broses o weinyddu trethi datganoledig.

### Archwilio ariannol

**3** Gwnaethom archwilio'r data, y methodolegau, y tybiaethau a mecanwaith cyfrifo'r alldro refeniw ar gyfer 2022-23 a'r refeniw amcangyfrifedig ar gyfer 2023-24, a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn. Ar gyfer yr amcangyfrif, a'r alldro lle y bo'n briodol, gwnaethom gymhwyso'r egwyddorion a nodir yn y Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU) 540 Amcangyfrifon Cyfrifyddu Archwilio a Datgeliadau Cysylltiedig, er mwyn llunio gweithdrefnau archwilio sy'n berthnasol i natur yr amcangyfrifon ac ar lefel ddigon manwl.

**4** O ran costau gweinyddu, gwnaethom seilio ein casgliad ynglŷn â chywirdeb a thegwch costau CThEF a godwyd ar Lywodraeth Cymru ar werthusiad o'r costau yn erbyn manylion y Cytundeb Lefel Gwasanaeth a'r fframwaith ategol ar gyfer costau y cytunwyd arnynt rhwng y ddau barti. Amcangyfrifodd CThEF rai o'r costau yr aed iddynt o'r data sydd ar gael ar gysylltiadau cwsmeriaid ac amser staff. Yn ystod yr archwiliad, gwelsom dystiolaeth hefyd fod y ddau barti yn trafod ac yn adolygu cyllidebau a rhagolygon costau yn rheolaidd yn ogystal â chytuno ar unrhyw symiau i'w hanfonebu a'u talu.

**5** Cafodd yr holl weithdrefnau archwilio hyn eu cynllunio, eu cyflawni a'u hadolygu yn unol â'n gweithdrefnau rheoli ansawdd mewnol ar gyfer gwaith archwilio ariannol.

**6** Cwblhawyd ein gwaith maes archwilio ariannol rhwng mis Ebrill 2024 a mis Gorffennaf 2024.

## Adolygu dogfennau

**7** Er mwyn gwerthuso'r ffordd y mae CThEF yn ymdrin â risgiau i gydymffurfiaeth, adolygwyd dogfennau cyhoeddedig ac anghyhoeddedig CThEF ynglŷn â chyfraddau treth incwm Cymru, gan gynnwys dogfennaeth y prosiect, dogfennaeth risg a chydymffurfiaeth, a manylion gwaith sicrwydd allweddol a wnaed gan CThEF.

**8** Cynhaliwyd ein hadolygiad rhwng mis Medi 2024 a mis Rhagfyr 2024.

## Cyfweliadau â swyddogion adrannol

**9** Cynhaliwyd dau gyfweliad â swyddogion o CThEF, a ddewiswyd i gymryd rhan oherwydd eu swydd ac am eu bod yn berthnasol i'r archwiliad. Roedd hyn yn cynnwys staff a oedd yn gyfrifol am bolisi treth datganoledig a chydymffurfiaeth â threth (neu a oedd yn ymwneud â'r meysydd hynny).

**10** Gwnaethom hefyd siarad â Llywodraeth Cymru i lywio ein hasesiad o risg a'n gwaith cynllunio ar gyfer yr adroddiad hwn.

**11** Gwnaed y gwaith maes rhwng mis Hydref 2024 a mis Tachwedd 2024. Cynhaliwyd cyfweliadau ar-lein. Gwnaethant bara awr ar gyfartaledd a chymerwyd nodiadau.

## Dadansoddi meintiol

**12** Gwnaethom ddadansoddi data ariannol gan CThEF ar refeniw treth incwm Cymru, amcangyfrif CThEF o refeniw treth incwm Cymru a chostau gweinyddol cyfraddau treth incwm Cymru.

Mae'r adroddiad hwn wedi'i argaffu ar Evolution Digital Satin ac mae'n cynnwys deunydd a geir o goedwigoedd cynaliadwy sy'n cael eu rheoli'n gyfrifol ac sydd wedi'u hardystio yn unol â'r FSC (Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd).

Mae'r mwydion coed yn hollol ailgylchadwy ac yn rhydd o asid. Mae gan ein hargraffwyr hefyd achrediad amgylcheddol ISO14001 llawn, sy'n sicrhau bod ganddynt weithdrefnau effeithiol ar waith i reoli gwastraff ac arferion a all effeithio ar yr amgylchedd.

National Audit Office

Dylunio a Chynhyrchu gan Dîm Cyfathrebu NAO
DP Ref: 014066-001

£10.00
ISBN: 978-1-78604-591-1